CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 12/11/2024 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Gruffydd Williams | Catrin Roberts | Gwynfor Jones |
| Lleucu Jones | Alaw Llewelyn Roberts | Caren Jones | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

Diolchodd y cadeirydd i bawb a fu'n gwirfoddoli i heplu yn y gwasanaethau Sul y Cofio.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Iwan Evans, Rhian Sanson a Carys Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Mared Llywelyn Williams – eitem 14 - taliad y cadeirydd
   Catrin Roberts – eitem 9 – sedd wag

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 08/10/2024
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams          Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Cymraeg Gwaith –** Gareth Jones
      Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn hysbysebu cyrsiau dysgu Cymraeg i staff busnesau yng Ngwynedd sydd yn rhad ac am ddim, mae Cynghorydd lleol Morfa ac Edern wedi bod mewn un busnes yn y pentref i siarad hefo'r rheolwr ac i ddosbarthu'r taflenni gwybodaeth felly os oes unhryw un yn gallu meddwl am fusnes arall yn ardal CTN a fyddai yn elwa o hyn yna iddynt gysylltu hefo'r Cynghorydd lleol.
   2. **Offer glanhau i Siop Siarad** – Gruffydd Williams
      Cais yw hwn i gael offer glanhau i Siop Siarad megis brwsh a dustpan, brwsh llawr, peth llnau ffenstri a spwng.
      Penderfyniad: mae'r aelodau yn hapus i Cynghorydd lleol Nefyn fynd i brynnu beth bynnag sydd ei angen ac fe gaiff yr arian yn ôl yn y pwyllgor nesaf.
      Cynnig: Gareth Jones          Eilio: Arfon Hughes

5. **Cyllideb 2025-2026**
   Mae'r Clerc wedi bod drwy ffigyrau gwariant am y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf ac am y flwyddyn yma hyd yn hyn ac wedi gostwng neu codi'r ffigyrau ar y gyllideb i adlewyrchu'r gwariant yma. Mae'r Is-bwyllgor ariannol wedi cyfarfod i drafod y gyllideb ac yn cytuno hefo'r ffigyrau felly

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

gofynnodd cadeirydd yr is-bwyllgor ariannol os oedd gan yr aelodau unrhyw beth yr oeddent eisiau ei godi neu ei drafod ar y gyllideb ac roedd pawb yn hapus gyda'r ffigyrau. Diolchodd yr aelodau i'r Clerc a cadeirydd yr Is-Bwyllgor Ariannol am eu gwaith yn paratoi y gyllideb.
Penderfyniad: derbyniwyd y gyllideb ac awgrymu praesept o £95,000.00.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts

6. **Trefnu gwasanaeth goleuo coeden nadolig Nefyn**
Mae'r coed nadolig yn cyrraedd dydd Gwener ac mae'r gwasanaethau goleuo ar y 25ain, 26ain a'r 27ain o mis yma felly mae angen mynd drost y trefniadau unwaith eto i wneud yn siwr fod pawb yn hapus.
Nefyn - mae angen cael rhywun i oleuo coeden nadolig Nefyn a dewis gwirfoddolwyr i blismona cau y ffyrdd ar y noson, mae pump o'r aelodau wedi cynnig plismona cau y ffyrdd, mae enw wedi cael ei gynnig ar gyfer goleuo'r goeden ac mae'r Cadeirydd am ofyn i'r unigolyn yma.
Edern – mae Ysgol Edern wedi trefnu bod plant yr Ysgol yn canu wrth y goeden ar y cyd hefo Cylch Meithrin Edern felly mae angen gwirfoddolwyr i helpu ar y noson, mae pedwar aelod wedi cynnig helpu. Cafwyd cadarnhad hefy bod siop bwtsiar Edern yn fodlon rhoi trydan ar gyfer y goeden eto eleni.
Morfa – Ysgol Morfa sydd yn gyfrifol am drefnu y gwasanaeth goleuo yn Morfa.
Mae'r Clerc wedi sicrhau cyfraniadau ariannol i dalu am y goeden yn y tri pentref eto eleni ac wedi trefnu y bydd y coed yn eu lle a'r goleuadau arnynt mewn digon o amser cyn iddynt gael eu goleuo.

7. **Planters tair 'tier' i Nefyn, Morfa ac Edern**
Pasiwyd yn y pwyllgor diwethaf i gael un o'r planters tair tier i Nefyn gan fod arian ar ôl yn y gyllideb felly mae'r mater yn ôl ar yr agenda i Morfa ac Edern gael penderfynnu os ydyn nhw eisiau un hefyd. Penderfynwyd archebu planter i'r tri pentref ac ar ôl iddynt gyrraedd penderfynnu lle i'w lleoli.

8. **Llwybr o flaen tafarn Ty Coch –** Gito Williams
Mae aelod Edern wedi bod yn Tŷ Coch i weld beth yw cyflwr y llwybr ac wedi gweld ei fod wedi cael ei gau. Mae aelod lleol Nefyn a Morfa ac Edern wedi bod at Cyngor Gwynedd i gwyno am hyn ac mae Cyngor Gwynedd wedi addo gyrru rhywun yno i'w weld gan fod yna hawl tramwy yno. Mae aelod lleol Morfa ac Edern am fynd ar ôl y mater unwaith eto ac adrodd nôl i bwyllgor mis nesaf.

9. **Sedd Wag –** Clerc
Cafwyd dau ymgeisydd ar gyfer y sedd wag felly roedd rhaid mynd i bleidlais.
Penderfyniad: pasiwyd i gynnig y sedd wag i William Lake yn dilyn pleidlais o 9 i 1 o'i blaid ac 1 aelod yn ymatal gan ei bod yn perthyn i un o'r ymgeiswyr.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Mared Llywelyn William

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 12/11/2024 am 7yh

10. **Newid mesurydd trydan Siop Siarad –** Clerc
    Mae'r clerc wedi bod yn derbyn ebyst a galwadau ffôn ynglŷn â mesurydd trydan Siop Siarad. Mae E.On Next yn dweud ei fod wedi cyrraedd diwedd ei oes ac y bydd rhaid ei newid gan bod posibilrwydd na fydd y darlleniadau yn gywir. Fe fydd y mesurydd yn cael ei newid i un 'smart'.
    Penderfyniad: gan fod CTN wedi pasio ym mhwyllgor mis Ebrill i beidio a cymeryd mesurydd 'smart' pasiwyd eto yn unfrydol i beidio a newid y mesurydd.
    Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

11. **Cofeb Dewi Pws –** Diweddariad – Is-gadeirydd
    Mae'r aelod wedi crybwyll y syniad wrth Rhiannon ac mae hi'n hoffi'r syniad o gael englyn neu gerdd i gofio am Dewi. Derbyniodd yr aelod ebost gan Amgueddfa Forwrol Llŷn yn sôn am eu syniad nhw o gael cerflun mawr o Dewi rhywle yn Nefyn a creu digwyddiad i ariannu'r costau. Teimlad yr aelodau ynglŷn â'r cerflun ydi y buasai'n ormod ac y byddai'r syniad gwreiddiol o gael englyn neu gerdd yn well.
    Penderfyniad: gan fod Rhiannon dal i alaru ac yn eithaf bregus ar y funud rhoi'r mater ar agenda Ionawr i weld beth fydd y sefyllfa yr amser hynny. Pasiwyd hefyd i greu Is-bwyllgor i ddelio gyda'r mater.

12. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    1. **Ebost Cyngor Cymuned Llanystumdwy –** cynnig i gymeradwyo Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg
       Penderfyniad: pasiwyd i gefnogi cynnig Cyngor Cymuned Llanystumdwy ac anfon ebost i'r Llywodraeth a Cyngor Gwynedd yn dweud hynny.
       Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts

13. **Ceisiadau Cynllunio**
    **C24/0899/42/TC –** Gelliwen, Lôn Uchaf, Morfa Nefyn – Codi adeilad i'w ddefnyddio fel storfa/swyddfa yn gysylltiedig a'r prif dŷ.
    Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad
    Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Rhys Llewelyn

    Ceisiadau Diweddarach

14. **Taliadau i'w gwneud**

    **Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**
    - Cyflog y Clerc – £1,407.78 (taliad Bacs)
    - Cyngor Gwynedd – rent Rhandiroedd - £100.00
    - Designer Signs – arwydd uwchben Siop Siarad - £684.00
    - John Gwynfor Jones – agor bedd Carlisle McDonald James Scott a Eurwen Scott a Robert Meirion Thomas - £620.00

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 12/11/2024 am 7yh

- Tyddyn Sachau Nurseries Cyf – blodau Nefyn - £243.93
- Clerks & Councils Direct – tanysgrifiad - £15.50
- G. Williams Ffensio Cyf – Llwybr arfordir i'r Cliffs Morfa Nefyn a mainc Lôn gam Nefyn - £2532.36
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £126.93
- Cyngor Gwynedd – Gwastraff Masnachol Llyfrgell Nefyn - £106.00
- Mared Llywelyn Williams – ail daliad y cadeirydd - £300.00
- D. M Parry – ail daliad mynwent Edern a Penniel a pumed taliad mynwent Morfa - £895.00
- HMRC – PAYE Mis 7 - £396.67
- RBL Poppy Appeal – 3 torch - £75.00
- Alan Adams – taliad rhif 8 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1947.12
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Hydref - £171.90
- Bacstal – gwasanaeth cyflogau - £165.60
- Gareth Williams - gwaith yn Bryn Mynach - £1025.64

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes      Eilio: Gareth Jones

**15. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – angladd Stephanie Hilda Watts - £915.00
- Ifan Hughes – angladd Douglas Neil Menzies - £1300.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com